Glanio'r awyren yn ddiogel

(dysgu gwrando / cydweithio / penderfyniad)

Rhuodd yr awyren yn esmwyth drwy'r awyr. Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig o braf; dim cwmwl yn yr awyr. Dim ond ychydig funudau eto a byddai'r ddau oedd ar fwrdd yr awyren wedi cyrraedd pen y daith ym maes awyr Caerdydd.

"Mi fyddwn ni yna mewn dim," meddai Les Rhoades y peilot wrth John Anderson, yr unig deithiwr ar fwrdd y Rally Minerva.

"Mae hwn yn beiriant bach digon o ryfeddod," meddai John gan edrych drwy'r ffenestr ar un o adenydd yr awyren.

"Ydi," meddai Les. Yn sydyn gwnaeth sŵn rhyfedd yn ei wddf a syrthiodd ymlaen yn ei set.

"Les! Les!" meddai John. Dechreuodd John ysgwyd y peilot ond i ddim pwrpas. Sylweddolodd John fod y peilot yn anymwybodol. Yn sydyn, dechreuodd yr awyren siglo o ochr i ochr.

"Beth wna i?" gofynnodd John yn wyllt iddo'i hun. "Dydw i erioed wedi cyffwrdd mewn unrhyw ran o awyren o'r blaen." Cydiodd yn y meicroffon a galwodd y maes awyr yng Nghaerdydd. "Rydw i angen help," meddai mewn llais crynedig. Aeth ymlaen i esbonio beth oedd wedi digwydd i'r peilot. Gwyddai'r person yn y maes awyr fod un o'u hyfforddwyr yn yr awyr mewn awyren Piper Warrior gyda'i ddisgybl dan hyfforddiant. Dyma gysylltu â'r hyfforddwr Robert Legg yn ei awyren. Cysylltodd Robert yn syth bìn â John yn y Rally Minerva. Gam wrth gam dywedodd wrtho beth i'w wneud â'i ddwylo a'i draed er mwyn cadw'r awyren yn ddiogel yn yr awyr.

"Hyd y gwelaf," meddai Robert, "mae yna ddigon o danwydd yn yr awyren. Felly rydw i am i chi wrando'n ofalus ac ymhen rhai munudau rydw i am i chi fy nilyn i o gwmpas y maes awyr."

Gwelodd John y Piper Warrior yn hedfan o'i flaen. Rhoddodd neges ar y radio, "Rwy'n gweld yr awyren Piper o'm blaen. Cofiwch, dydw i ddim wedi gwneud dim byd fel hyn o'r blaen. Mae'r cwbl yn newydd i mi."

Felly, yn yr awyr uwchben maes awyr Caerdydd, roedd y ddwy awyren yn dilyn ei gilydd mewn cylch er mwyn rhoi digon o ymarfer i John ddysgu trin yr awyren. Ymhen ychydig funudau daeth neges ar radio John. "Dwi'n meddwl eich bod wedi dod i

ddeall yr awyren, mi fyddwn ni'n glanio mewn dim rŵan."

"Wel os ydych chi'n hapus," oedd ateb John. Yn araf, araf roedd y Minerva yn dod yn is ac yn is a John yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau Robert. Roedd yr awyren yn hedfan yn isel dros y llain glanio. Gwelai John bethau'n symud yn gyflym o'i gwmpas ac yn sydyn dyma sŵn a'r awyren fechan yn ysgwyd drwyddi.

Gwyddai'n iawn beth oedd wedi digwydd. Roedd yr olwynion wedi taro ar y ddaear. Tra oedd yn dal i roi ei holl feddwl ar y gwaith, glaniodd yr awyren yn saff ar y ddaear. Roedd y munudau olaf wedi bod yn uffern ar y ddaear ond gyda help yr hyfforddwr roedd John wedi glanio'n ddiogel. Pan ddaeth allan o'r Minerva roedd ambiwlans yn disgwyl i fynd â'r peilot yn syth i'r ysbyty. Ond pan gyrhaeddodd yr ambiwlans yr ysbyty roedd y peilot wedi marw.

Adnod: "Uniona dy galon a saf yn gadarn, a phaid â bod yn fyrbwyll pan ddaw aflwydd arnat." Ecclestiasticus 2:2

Gweddi: Rho i mi, Arglwydd, y sgiliau a'r dewrder i ddelio efo problemau bywyd. Rhof ddiolch hefyd am bawb sy'n barod i fy helpu bob amser. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi wedi ymateb petai hyn wedi digwydd i chi?
- Pa wersi mae'r stori hon yn eu dysgu i ni?